



**Timau Troseddau Ieuenctid (TTI)
Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Polisi a Gweithdrefn Digwyddiadau Diogelu
Cymunedol a Gwarchod y Cyhoedd
(DDCGC)**

**BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Fersiwn	Dyddiad Adolygu	Perchennog	Dyddiad cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
V1	17/10/21	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	17/10/2019	17/10/20

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Nodi a hysbysu digwyddiadau DCGC	4
Penderfyniadau lleol a chynnull y FfGPA.....	5
Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Amlasiantaethol (FfGPA)	5
Rhannu canlyniadau dysgu ac argymhellion.....	6
Camau'r DDCGC	7
Atodiad 1- Arferion Proffesiynol Cyfredol	8
Atodiad 2- Trosedd cysylltiedig â therfysgaeth.....	9
Atodiad 3- Rhywun ifanc wedi cael anaf a allai beryglu bywyd	10
Atodiad 4- Rhywun ifanc wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad....	10
Atodiad 5- Canllawiau ar ddiffinio ceisio hunanladdiad	11
Atodiad 6- Adolygiad Achos Difrifol (AAD) TADC	11

Digwyddiadau Diogelu Cymunedol a Gwarchod y Cyhoedd

1. Cyflwyniad

Ar 8^{ed} Mai 2018, daeth pen ar gyfrifoldebau hysbysu Digwyddiadau Diogelu Cymunedol a Gwarchod y Cyhoedd (DDCGC) gan Awdurdodau Lleol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI). Bellach mae gofyn gwneud penderfyniadau ynghylch adolygu digwyddiadau a darparu gwasanaethau perthnasol i blant dan sylw'n lleol, yn dilyn trafodaethau amlasiantaethol, pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

O ganlyniad, datblygwyd **Fframwaith Dysgu ac Adolygu** gyda'r bwriad bod Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) a'i asiantaethau partner yn creu amgylchedd lle gall ymarferwyr a'u hasiantaethau weld cyfleoedd i ystyried achosion a dysgu gwersi pan fo hynny'n briodol.

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2: Adolygiadau Ymarfer Plant; SSWA (Cymru) 2014 yn rhoi fframwaith ar gyfer gwneud Adolygiadau Ymarfer Plant.

Dylid ystyried '**Adolygiad Ymarfer Plant**' cryno, os nad oedd y plentyn naill ai ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nac yn Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol

pan fo camdriniaeth neu esgeulustod o'r plentyn yn hysbys neu dybiedig a'r plentyn

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad.

Os oedd y plentyn ar y Gofrestr AP a/neu yn Derbyn Gofal (gan gynnwys rhywun yn gadael gofal dan 18 oed) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn y digwyddiadau uchod, yna rhaid ystyried '**Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig**'.

Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant CYSUR sy'n ystyried Adolygiadau Ymarfer Plant, fel arfer ond nid yn unig, trwy gyfeireb Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLI) ymhob un o'r pedair sir.

Fodd bynnag, at ddibenion proses y DDCGC, mae'n debygol y bydd mwyafrif yr achosion sy'n ennyn y drefn hon yn gofyn cynnull '**Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol**' (FfPA). Mae hon yn rhaglen barhaol CYSUR sy'n cynorthwyo dysgu myfyriol amlasiantaethol. Datblygwyd Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer y broses hon a chaiff unrhyw ddysgu rhanbarthol a nodwyd gan FfPA ei oruchwyllo gan y FfPA Rhanbarthol.

Er eglurder, bydd y term cyffredinol a chyfreithiol 'Tîm Troseddau Ieuencid / TTI' yn berthnasol i'r Tîmau a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid amrywiol yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Pan fo plentyn / rhywun ifanc yn llwyth achosion y Tîm Troseddau Ieuencid (TTI) (gan gynnwys Penderfyniadau Allan o'r Llys) yn rhan (neu'n honedig yn rhan) o ddigwyddiad diogelu neu warchod y cyhoedd, mae'n bwysig bod unrhyw gloriannu o'r amgylchiadau cysylltiedig yn ystyried y cydadwaith ag unrhyw asiantaethau ehangach ac yn peidio â dim ond canolbwyntio ar swyddogaeth y TTI. Fe all gwasanaethau gynnwys (ymhlith eraill) Gofal Cymdeithasol Plant, Addysg ac Iechyd. Mae'r BCI yn argymhell agwedd at ddysgu o ddigwyddiadau difrifol sy'n canolbwyntio ar daith y plentyn yn hytrach nag ar safbwyntiau darparwyr gwasanaethau unigol ac, felly, mae'n annog gweithio a dysgu ar y cyd ble bynnag y bo modd.

- Diben y ddogfen hon yw datgan yr hyn y mae gofyn i staff sy'n gweithio yn y TTI ei wneud os yw plentyn yn rhan o ddigwyddiad Diogelu neu Warchod y Cyhoedd tra bo dan oruchwyliaeth neu yn llwyth achosion y TTI a chynnwys y bobl ifanc hynny nad oedd dan oruchwyliaeth y TTI pan gawsant eu cyhuddo.

2. Nod DDCGC a hysbysu'n lleol

Cyfrifoldeb Rheolwr neu Reolwr Gweithredol y Gwasanaeth TTI yw nodi Digwyddiad Diogelu neu Warchod y Cyhoedd a hysbysu'r canlynol o fewn 24 awr:

- Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r TTI a/neu swyddog penodedig perthnasol arall
- Cadeirydd Grŵp Gweithredol Lleol / Pennaeth y Gwasanaethau Plant
- Cyfarwyddwr Addysg / Prif Swyddog Addysg
- Pennaeth Gwasanaeth gyda phortffolio TTI

Rhaid hysbysu os yw'r bobl ifanc:

- yn cael eu cyhuddo o un o'r troseddau gwarchod y cyhoedd canlynol, gan gynnwys y bobl ifanc hynny nad ydynt dan oruchwyliaeth y TTI pan gânt eu cyhuddo;
- mewn digwyddiad diogelu tra byddant yn un o lwyth achosion y TTI neu hyd at 20 diwrnod calendr ar ôl darfod goruchwyliaeth TTI.

Mae'r tabl isod yn dangos y digwyddiadau hysbysadwy:

DIOGELU	GWARCHOD Y CYHOEDD
Pobl ifanc dan oruchwyliaeth / yn llwyth achosion TTI (neu o fewn 20 diwrnod calendr ar ôl darfod goruchwyliaeth y TTI):	Pobl ifanc (dan oruchwyliaeth / yn llwyth achosion TTI neu beidio) gyda chyhuddiad o un o'r canlynol:
yn marw	Llofruddiaeth / dynladdiad
yn ceisio lladd eu hunain (yn ôl asesiad clinigwyr iechyd neu weithwyr proffesiynol iechyd meddwl lleol) Atodiad 5	Treisio
yn dioddef treisio (lle gwnaed honiad i'r heddlu)	trosedd MAPPA difrifol ychwanegol pan fo eisoes yn destun MAPPA
yn dioddef cam-drin / camfanteisio rhywiol	Trosedd cysylltiedig â therfysgaeth, gan gynnwys unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth Terfysgaeth neu drosedd cynllwynio, ceisio, cynorthwyo, annog, cwnsela, caffael neu ysgogi trosedd dan ddeddfau terfysgaeth. (Atodiad 2)
wedi cael anaf a allai beryglu bywyd (naill ai trwy weithrediad eraill, neu oherwydd anffawd) ymddygiad gwrthgymdeithasol mentrus neu hunan-niweidio	
wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd a datblygiad (Atodiad 4)	

Rhaid i'r TTI sicrhau, pan fo hynny'n berthnasol, y cymrwyd camau priodol i sicrhau diogelwch a ffyniant plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n teimlo effaith y digwyddiad.

Yn aml bydd digwyddiadau diogelu a gwarchod y cyhoedd yn tynnu sylw'r cyfryngau. Rhaid i TTI Canolbarth a Gorllewin Cymru ddilyn gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol ar drin y cyfryngau. Pan ddaw digwyddiad lleol yn fater cenedlaethol, fe all y BCI ofyn am ragor o fanylion (o fewn cylch gwaith eu cyfrifoldebau arolygu cyfundrefn gyfan, Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998). Os yw achos yn tynnu, neu'n debygol o dynnu, cryn sylw'r cyfryngau, dylai Uwch-reolwr y Tîm Troseddau

leuentid perthnasol hysbysu a chadw cyswllt â Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel bod modd rheoli a chydgyssylltu unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau'n briodol.

3. Penderfynu'n lleol

Yn dilyn hysbysu DDCGC trwy e-bost dan y pennawd 'Brys - Digwyddiad Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd Argyfyngus', bydd Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r TTI a Chadeirydd y GGLI, ynghyd â'r Pennaeth Gwasanaeth cyfrifol am TTI, yn penderfynu a yw'r digwyddiad yn gofyn adolygiad o arferion TTI; bydd Rheolwr y Gwasanaeth TTI yn cofnodi'r penderfyniad hwn fel cyswllt 'goruchwyllo gan reolwyr' ar gyfer y cofnod achos perthnasol. Fe all y broses benderfynu hon ddigwydd trwy e-bost ond bydd Rheolwr y Gwasanaeth TTI yn atodi'r cofnod penderfynu trwy e-bost at y cofnod achos electronig. Bydd yr achos ac unrhyw argymhelliad i symud ymlaen i FfPA yn cael ei drafod a'i gytuno yn y Grŵp Gweithredol Lleol nesaf.

Bydd y TTI yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli peryglon / diogelu'r achos yn briodol i gynnwys unrhyw gamau gofynnol e.e. cynyddu cyswllt, cyfeirebau at asiantaethau priodol eraill ac ati yn unol â'u fframwaith Rheoli Peryglon lleol.

Bydd adolygu arferion TTI yn dilyn fframwaith FfPA Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda'r TTI priodol yn arwain y broses. Er mwyn tegwch mae modd gofyn i TTI cyfagos wneud yr adolygiad trwy drefniadau cilyddol (os yw Cadeirydd y GGLI a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli'n ystyried hynny'n briodol). Fel arfer, Rheolwr Gweithredol fydd yn ysgrifennu'r adroddiad / arwain yr adolygiad. Bydd gofyn i asiantaethau partner ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r swyddog adolygu a chynorthwyo lle bo angen gyda llinell amser yr adolygiad. O'i orffen, bydd Adroddiad y FfPA a chynllun gweithredu a gytunwyd yn cael eu rhannu gyda Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r TTI a Chadeirydd y GGLI i'w hystyried ymhellach a gweithredu fel y bo'n briodol. Bydd y FfPA yn dod dan awdurdod y GGLI trwy drefniadau lleol, fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros rannu unrhyw wersi a ddysgwyd yn lleol a chyflawni unrhyw gynllun gweithredu ar y cyd â Bwrdd Rheoli'r TTI. Y disgwyl yw y bydd yn y rhan fwyaf o achosion unrhyw ddysgu ehangach yn cael ei ddal yn y FfPA Rhanbarthol.

Pan fo'r GGLI yn teimlo bod achos yn cyrraedd trothwy cyfeireb i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant ac adolygiad yn cael ei wneud, proses yr Adolygiad Ymarfer Plant fydd yn cael blaenoriaeth.

Dysgu gan y bobl ifanc

Wrth adolygu digwyddiadau, mae'n bwysig rhoi cyfle i'r bobl ifanc dan sylw ddweud eu barn ynghylch beth ddigwyddodd a gweithio gyda nhw i nodi a sefydlu'r ffactorau cynorthwyol a gwarchodol fydd yn helpu eu cadw'n ddiogel ac atal digwyddiadau yn y dyfodol. Mae angen i Fwrdd Rheoli pob TTI ystyried pwy sydd fwyaf priodol ar gyfer y swyddogaeth hon.

4. Y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA)

- Bydd Fframwaith Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer cynnal FfPA yn cael ei ddilyn.
- Bydd gweinyddwyr GGLI yn trefnu'r amser, dyddiad a lleoliad.

Wrth fynychu'r FfPA, rhaid i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli pryd bynnag y bo modd gan ymarferwyr a rheolwyr sy'n gallu cyfrannu'n gadarnhaol at yr adolygiad ac unrhyw argymhellion dysgu ac arferion sy'n deillio o'r fforwm. Y diben yw nodi dysgu ar gyfer arferion y dyfodol trwy archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlant / pobl ifanc a'u teuluoedd.

Bwriad cynnyrch y fforwm yw sbarduno dysgu proffesiynol a threfnyddol a hyrwyddo gwella arferion diogelu a gwarchod y cyhoedd rhwng asiantaethau yn y dyfodol.

5. Rhannu canlyniadau dysgu ac argymhellion


Mae'n bwysig bod gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau difrifol yn cael eu rhannu fel bod modd gweithredu ar waith i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

Bydd adroddiad cryno o ganlyniadau'r dysgu ac argymhellion a chynllun gweithredu o'r FfPA yn cael ei baratoi a'i gylchredeg ar ffurf drafft i'w gytuno gan gyfranogwyr. O'i orffen, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda Bwrdd Rheoli'r TTI.

Y Grŵp Gweithredol Lleol fydd perchennog ac yn gweithredu'r adroddiad a chynllun gweithredu a gytunwyd ac yn eu rhannu gyda'r FfPA rhanbarthol.

Rheolwr y Gwasanaeth TTI fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu ac argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth a bod y rhain yn cael eu rhannu gydag aelodau'r staff. Pob asiantaeth bartner sy'n rhan o'r adolygiad mae'n gyfrifol am weithredu a rhannu canlyniadau dysgu ac argymhellion yn eu sefydliadau eu hunain.

6. Cyfnodau'r DDCGC



ATODIAD 1

Arferion Proffesiynol Cyfredol

Caiff rheoli, asesu, hysbysu a goruchwylio digwyddiadau difrifol (diogelu a gwarchod y cyhoedd) eu crybwyll mewn nifer o ddogfennau allweddol y dylai'r Gyfundrefn Cyfiawnder Ieuentid eu hystyried yn strategol ac yn weithredol. Mae'r rhain i gyd yn dal yn berthnasol:

Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008 (sy'n cael ei adolygu)

Llywodraeth Cymru - Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015)

Safonau ar gyfer Plant yn y Gyfundrefn Cyfiawnder Ieuentid – Safonau Cenedlaethol Newydd (2019)

Arolwg AEM o Brofiannaeth Gwasanaethau Troseddu Ieuentid - Canllawiau (2018)

Canllawiau Rheoli Achosion BCI (2014) (gan gynnwys adrannau a ddiweddarwyd 2019)

Partneriaethau Troseddau Ieuentid Modern (2013)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 7 (Diogelu)

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweithdrefn Hysbysu Digwyddiadau (2013)

Ymateb Trefniadol Iechyd Cyhoeddus Cymru i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod (PRUDiC)

Mewn cysylltiad â *Hysbysu Digwyddiadau Difrifol Arwyddocaol yn y Ddalfa* – mae gan HMPPS ganllawiau ar gyfer Llywodraethwyr a Chyfarwyddwyr sefydliadau cadw. Yn dilyn hysbysu digwyddiad, fe allai awdurdodau lleol fod yn rhan o'r trefnau hyn gan HMPPS, ond nid oes gofynion ar wahân.

ATODIAD 2

Trosedd cysylltiedig â therfysgaeth

Mae trosedd cysylltiedig â therfysgaeth yn cwmpasu'r rhai a gafwyd yn euog o'r canlynol:

- unrhyw drosedd dan ddeddfau terfysgaeth
- trosedd o gynllwynio, ceisio, cynorthwyo, annog, cwnsela, caffael neu ysgogi trosedd dan ddeddfau terfysgaeth.

Mae trosedd cysylltiedig â therfysgaeth yn cynnwys troseddau dan ddeddfau terfysgaeth a throseddau eraill sy'n cael eu hystyried yn gysylltiedig â therfysgaeth.

Diffiniad cyffredinol terfysgaeth yw cyflawni gweithredoedd treisiol (neu fygwth cyflawni gweithredoedd treisiol) gyda'r bwriad o greu ofn (arswyd) dros amcan economaidd, crefyddol, gwleidyddol neu ideolegol, ac sy'n targedu neu'n diystyru diogelwch anymladdwyr (e.e., personél milwrol amhleidiol neu sifiliaid) yn fwriadol.

Caiff terfysgaeth ei ddiffinio yn Neddf Terfysgaeth 2000 (TACT 2000) ac mae'n golygu defnyddio neu fygwth gweithred:

1. lle bo'r gweithredu:

- a) yn cynnwys trais corfforol difrifol;
- b) yn cynnwys difrod difrifol i eiddo;
- c) yn peryglu bywyd rhywun, heblaw bywyd pwy bynnag sy'n gwneud y weithred;
- d) yn creu perygl difrifol i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd; neu
- e) a luniwyd i ymyrryd yn ddifrifol â neu darfu'n ddifrifol ar system electronig; **ac**

2. y lluniwyd y defnydd neu fygythiad i ddylanwadu ar y llywodraeth neu i frawychu'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd, **a**

3. bod y defnydd neu fygythiad yn cael ei wneud at ddiben hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.

4. pan fo gweithredu neu fygwth gweithredu yn ôl y diffiniad uchod yn golygu defnyddio gynnu neu ffrwydron, mae bob amser yn derfysgaeth, boed yr amod yn (2) uchod yn wir neu beidio.

ATODIAD 3

Rhywun ifanc wedi cael anaf a allai beryglu bywyd

'Anaf a allai beryglu bywyd' yw un lle mae perygl sylweddol o farwolaeth yn ôl barn feddygol.

Y math o ddiwyddiadau y dylid eu hysbysu yw'r canlynol:

Holl anafiadau a allai beryglu bywyd a gafodd dioddefwr trwy weithrediad eraill er enghraifft:

- ymosodiadau'n cynnwys arfau bygythiol, cyllyll, llafnau, eitemau pigfain ac arfau eraill (**dylid hysbysu holl anafiadau a berwyd gan arfau fel rhai 'a allai beryglu bywyd'**)
- ymosodiadau corfforol difrifol (heb arfau).

Holl anafiadau a allai beryglu bywyd a gafodd rhywun ifanc oherwydd:

- anffawd – e.e. gorddos cyffuriau, gyrru am hwyl
- ymddygiad gwrthgymdeithasol mentrus.
- hunan-niwed

ATODIAD 4

Rhywun ifanc wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad

Y tîm goruchwylio clinigol gyda chyfrifoldeb meddygol sy'n penderfynu a yw plentyn neu rywun ifanc wedi cael amhariad parhaol ar iechyd neu ddatblygiad. Bydd y tîm meddygol yn nodi a yw amhariad sylweddol ar swyddogaeth aelod corfforol, organ, neu allu meddyliol yn debygol o fod yn parhaol; neu anffurfiad amlwg sy'n debygol o fod yn parhaol. Fe all hyn gael ei nodi ar unwaith ar adeg y digwyddiad neu fe allai ddod i'r amlwg ar ôl y digwyddiad er enghraifft anaf i'r pen.

Dylai'r TTI gyfeirio at eu canllawiau Adolygiad Achos Difrifol neu Adolygiad Ymarfer Plant lleol am ganllawiau ar ddiffinio amhariad estynedig neu parhaol ar iechyd neu ddatblygiad.

ATODIAD 5

Canllawiau ar ddiffinio ceisio hunanladdiad

Fe all fod yn anodd iawn gwybod a yw digwyddiad yn 'ceisio hunanladdiad', ac fe all ymddygiad hunan-niweidio peryglus, lle nad oes bwriad amlwg i ddiweddu bywyd, fod mor beryglus â cheisio hunanladdiad pendant. Nid yw diffinio'r ymddygiadau hyn yn wyddor fanwl, ond dylai gael ei ysbrydoli gan asesiadau clinigwyr iechyd neu weithwyr proffesiynol iechyd meddwl lleol.

Wrth ystyried a oes gofyniad i hysbysu ac a oes rhywbeth i'w ddysgu o achos yn cynnwys amheuaeth o geisio hunanladdiad, dylai ymarferwyr a rheolwyr ystyried ymddygiadau yn y gorffennol, sylwadau gweithwyr proffesiynol eraill, maint y perygl i'r un ifanc dan sylw, eu meddyliau a theimladau (a oes modd asesu hyn ar adeg hysbysu) a'r peryglon yn y dyfodol o beidio ag adolygu'r achos.

ATODIAD 6

Adolygiad Achos Difrifol (AAD) MAPPA

Diben yr Adolygiad Achos Difrifol (AAD) MAPPA yw gweld a ddefnyddiwyd y trefniadau MAPPA yn effeithiol ac a weithiodd yr asiantaethau gyda'i gilydd i wneud popeth a allent o fewn rheswm i reoli perygl troseddu eto yn y gymuned.

Nodau'r AAD MAPPA fydd penderfynu a oes gwersi i'w dysgu, eu nodi'n eglur, penderfynu sut i weithredu arnynt ac, o ganlyniad, ysbrydoli datblygiad polisïau a gweithdrefnau MAPPA at y dyfodol er mwyn gwarchod y cyhoedd yn well. Fe all hefyd nodi arferion da.

Rhaid i'r Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) gomisiynu AAD MAPPA os yw'r **ddau** amod canlynol yn berthnasol:

- Roedd y troseddwr MAPPA (yn unrhyw gategori) dan reolaeth yn lefel 2 neu 3 pan droseddodd neu ar unrhyw adeg yn y 28 diwrnod cyn troseddu.
- Y trosedd yw llofruddiaeth, ymgais i lofruddio, dynladdiad, treisio, neu ymgais i dreisio.

Rhaid peidio â dosbarthu'r adroddiad yn eang na'i gyhoeddi, a dylid ei rannu'n unig gydag eraill ar awdurdod Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol. Mae amseriad yr adroddiad yn dyngedfennol ac efallai y bydd raid oedi ei ddisbarthiad pe byddai'n cael effaith andwyol ar unrhyw achos troseddol cyfredol. Os bydd amheuaeth, dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol gadw cyswllt â'r Swyddog Ymchwilio.

Dylid cyflwyno Adroddiad Arolygol cyn pen mis ar ôl cwblhau Adroddiad yr AAD MAPPA. Dylai'r Adroddiad Arolygol nodi'n eglur pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Gweithredu.